Cyngor Cymuned Llanddoged a Maenan

CYNLLUN BIOAMRYWIAETH

CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN

Mae Cyngor Cymuned Llanddoged a Maenan yn gyfrifol am ardal sydd â phoblogaeth o tua 500 o drigolion ac mae'n cael ei incwm o'r precept £7,000.

POLISI

Bwriad y polisi hwn yw sicrhau fod natur, bywyd gwyllt a'r holl fioamrywiaeth gynhenid yn cael ei ystyried ym mhopeth y mae'r Cyngor Cymuned yn ymwneud ag ef. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod gweithredu ar lefel leol yn dod a budd byd-eang trwy warchod yr amgylchedd ac adnoddau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Felly mae Cyngor Cymuned Llanddoged a Maenan yn ymrwymo i warchod a gwella'r amgylchedd ac i sicrhau, lle mae hynny'n bosib, nad yw ei weithgarwch yn niweidiol i'r amgylchedd. Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i holl dir, eiddo a gweithgareddau o fewn rheolaeth Cyngor Cymuned Llanddoged a Maenan a bydd y Cyngor yn rheoli ei weithrediadau mewn modd a fydd yn amgylcheddol gynaliadwy.

MEYSYDD CHWARAE

Mae gan y Cyngor Cymuned faes chwarae sydd ym Maenan lle mae ychydig o laswellt. Er diogelwch i ddefnyddwyr y safle bydd yn rhaid sicrhau fod y glaswellt yn cael ei dorri'n gyson. Ni ddefnyddir chwyn laddwyr yma.

MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH MAENAN

Bydd y glaswellt yn y maes parcio yma yn cael ei dorri o gwmpas mis Mehefin wedi i'r blodau gwyllt ddod i ben. Y Cyngor wedi gosod byrddau picnic o ddefnydd ailgylchu yn y maes parcio. Fydd yma ddim chwyn laddwyr yn cael eu defnyddio ar y safle.

MAES PARCIO CEGIN WEN, LLANDDOGED

Bydd y glaswellt o gwmpas y maes parcio yn cael ei dacluso o gwmpas mis Mehefin a bydd y gwrychoedd yn cael ei dorri yn nôl cyn i'r adar gychwyn nythu.

LLWYBRAU CYHOEDDUS

Dim ond o fewn canllawiau bioamrywiaeth y caniateir clirio llwybrau, gofalu.s Ni ddylid tarfu ar wrychoedd a choed yn ystod y tymor nythu rhwng mis Mawrth a mis Awst. Nid yw'r Cyngor Cymuned yn caniatáu lladd chwyn yn yr ardal.. Atgoffir trefnwyr digwyddiadau o ymrwymiad y Cyngor i fioamrywiaeth. Bydd blychau blodau wedi'u gwneud o ddeunydd wedi'i ailgylchu, ni fydd y compost yn cynnwys mawn, a bydd offer garddio yn gweithio ar fatris.

BOCS BLODAU

Mae'r Cyngor Cymuned yn bwriadu gosod bocs i ddal blodau ym mhentref Llanddoged a Maenan i gael plannu planhigion gardd lled naturiol. Ni fydd planhigion sy'n cael eu cyfrif yn rhai ymwthiol sy'n lledaenu ac yn fygythiad i gynefinoedd naturiol yn cael eu plannu yno. Bwriedir sicrhau y bydd hynny yn parhau i'r dyfodol. Ni fydd chwynladdwr yn cael ei ddefnyddio ar y blodau.

CONTRACTWYR

Bydd contractwyr yn cael eu cyflogi i gynnal a chadw'r coed a strimio y meysydd chwarae a parcio. Bydd Canllawiau Bioamrywiaeth ar gyfer contractwyr yn cael eu hysgrifennu a'u rhoi i gontractwyr.

CYDWEITHIO

Mae'r Cyngor yn cydweithio gydag awdurdodau ac asiantaethau lleol, a bwriedir parhau i fonitro ac ymateb i weithgarwch i argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

Arwyddwyd ……*Anwen Jones*……..(Cadeirydd)